

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Bro Machno a gynhaliwyd ar 13eg o Dachwedd 2014 yn Ffestri Capel Salem.

Yn bresennol roedd Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Dafydd Hughes, Colin Jones, Geraint Thomas, Eryl Owain, Aled Roberts ac Eifion Davies. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyril Lewis, Dewi Jones a'r Cynghorydd Wyn Jones.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 13 Medi fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

Toiledau – dal i aros ymateb gan Gyngor Sir Conwy.

Gwaharddiad parcio – aros am ymateb pellach gan y Cyngor Sir.

Meddygfa – nid oes cyfarfod wedi ei drefnu eto ond cadarnhawyd y byddai'n fuddiol cael cyfarfod i drafod yn bennaf cwynion ynglŷn â threfnu apwyntiad.

Gwefan – gobeithir trefnu cyfarfod yn fuan efo cwmni Cennin i sefydlu'r wefan.

Ffyrdd – derbyniwyd cwynion bod cerbydau gyrriant pedair olwyn wedi defnyddio Ffordd Sarn ond gan fod y ffordd wedi ei mabwysiadu mae'n anodd eu rhwystro. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i nodi pryder ac i ofyn iddynt ddelio â'r dŵr sydd ar y ffordd.

Penderfynwyd cysylltu eto â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r *manhole* sy'n gorlifo ger Capel Salem a'r angen i hel dail ar y ffordd o'r Machno i fyny.

Diwrnod Agored Trac beicio – gwahoddiad i'r cynghorwyr fynychu diwrnod agored i agor y ddolen newydd ar y trac beicio mynydd ar 15 Tachwedd.

Bws hwyr – penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i wrthwynebu'r bwriad i ddileu'r bws fin nos i Lanrwst ac yn ôl.

Lle parcio – trafodwyd y syniad o ymestyn y lle parcio ger yr Hen Ysgol a phenderfynwyd trafod ymhellach gydag ymddiriedolwyr yr Hen Ysgol. Byddai hyn hefyd yn tacluso'r fynedfa i'r cae chwarae.

Coed Nadolig – gofynnwyd i'r clerc drefnu bod dwy goeden Nadolig, i Benmachno a Cwm, yn cael eu prynu.

